



Ynghylch BookTrust Cymru

Mae BookTrust Cymru yn gweithio i ysbrydoli cariad at ddarllen ymhlith plant, gan ein bod yn gwybod y gall darllen weddnewid bywydau. Bob blwyddyn, rydym yn cyrraedd miloedd o blant a theuluoedd gyda'n llyfrau, ein hadnoddau a'n cymorth i'w rhoi ar ben ffordd ar eu teithiau darllen. Ein nod yw dod â manteision darllen i blant sydd â'r angen mwyaf, gyda phlant a theuluoedd yn ganolog i arloesi, dylunio a datblygu ein rhaglenni.

Manteision darllen

Rydym yn gwybod bod darllen yn cynnig manteision dwys ac eang a all gael effaith gadarnhaol gydol oes ar fywydau plant. Mae plant sy'n darllen yn fwy tebygol o oresgyn anfantais, o wneud yn well yn yr ysgol ac o ddatblygu gwell llesiant meddwl.

Rydym hefyd yn gwybod er bod y mwyafrif o rieni a gofalmwr yn ystyried darllen yn bwysig i'w plentyn, nid yw dros chwarter yn canfod darllen gyda'u plentyn yn rhwydd ac nid yw 1 o bob 5 yn teimlo'n hyderus yn dewis llyfrau y bydd eu plentyn yn eu mwynhau.

Pecynnau Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da i Blant Cyn Oed Ysgol

Mae'r pecynnau Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da i Blant Cyn Oed Ysgol yn cynnig adnoddau i deuluoedd â phlant 1-4 oed, a allai fod yn wynebu anfantais neu sydd angen mwy o gymorth i wneud darllen ar y cyd yn rhan reolaidd o'u bywydau.

Mae'r pecynnau hyn i chi eu rhoi i'r teuluoedd yr ydych yn gweithio â nhw. Daw'r pecynnau gydag awgrymiadau a chyngor i gynorthwyo teuluoedd i ymgysylltu â rhannu straeon, gan gynnwys dolen i Hyb Teuluoedd Dechrau Da BookTrust Cymru: booktrust.org.uk/cy-gb/familyhubwales lle gall teuluoedd ddod o hyd i weithgareddau pellach ac awgrymiadau o lyfrau i barhau â'u taith ddarllen.

I gael syniadau am sut i roi eich pecynnau, ewch i Hyb Adrodd Straeon BookTrust Cymru yn booktrust.org.uk/cy-gb/storytellerwales, hyb digidol pwrpasol ar gyfer ein partneriaid blynyddoedd cynnar. Gallwch hefyd ymuno â Chylchlythyr Blynyddoedd Cynnar BookTrust i gael diweddariadau rheolaidd gennym secure.booktrust.org.uk/newsletters

Dyma rai awgrymiadau da i annog teuluoedd i ddechrau darllen

- Nid oes unrhyw ffordd anghywir i rannu stori. Mae cael hwyl gyda'ch gilydd yn llawer pwysicach na chael y geiriau yn 'iawn'!
- Nid oes angen darllen llyfr o glawr i glawr i gael y manteision.
- Nid oes ots pwy sy'n rhannu straeon, gall unrhyw un ddarllen gyda phlant!
- Nid yw byth yn rhy hwyr i ddechrau rannu straeon.
- Gall dod o hyd i straeon y mae plant yn adnabod eu hunain, eu bywydau neu eu profiadau ynddynt danio diddordeb mewn darllen a meithrin hunan-barch.

Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth!

Gallwch roi gwybod i ni sut hwyl rydych yn ei gael gyda'ch pecynnau a'ch adnoddau trwy lenwi arolwg dau funud yn booktrust.org.uk/cy-gb/storytellerfeedbackwales



booktrust.org.uk/cymru

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol @BookTrustCymru

©2024 BookTrust. Rhif elusen 313343

